**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2016 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 1pm.

PRESENNOL

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| J R Skelland (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); G Owens (Dirprwy Glerc); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| D Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |
| D Simmons | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |
| | |
| K Finch | Trysorydd |

Cafodd yr Aelodau wybod bod y Trysorydd wedi cael ei gymryd yn sâl, ac anfonwyd eu dymuniadau gorau iddo.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 14 MEDI 2015

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2015 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Hynt yr amcanion gwella drafft – roedd yr ymgynghoriad wedi cael ei gwblhau ganol mis Rhagfyr a daeth tua 180 o ymatebion i law; ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn mynegi cefnogaeth i'r gwaith atal tanau a'r syniad o gynyddu gwasanaethau a rôl diffoddwyr tân. Caiff adroddiad llawn ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Panel Gweithredol ac yna caiff yr amcanion eu cyflwyno i'r ATA i'w gymeradwyo ym mis Mawrth.

3.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

4 DANGOSYDDION ARIANNOL, STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, Y STRATEGAETH FUDDSODDI A'R POLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

4.1 Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r dangosyddion ariannol, strategaeth rheoli'r trysorlys, y strategaeth fuddsoddi a'r polisi darpariaeth isafswm refeniw ar gyfer 2016/17 i'r Aelodau. Tasg y Pwyllgor Archwilio oedd sicrhau bod craffu effeithiol yn digwydd ar y strategaeth a'r polisïau rheoli'r trysorlys, a gwneud argymhellion i'r Awdurdod Tân ac Achub yn seiliedig ar ei ganfyddiadau. Aeth Ms Forrest â'r Aelodau drwy'r adroddiad gyda chymorth cyflwyniad manwl, ac atebodd hi gwestiynau'r Aelodau.

4.2 Esboniodd Ms Forrest mai'r risgiau ar gyfer yr Awdurdod yn 2016/17 fydd cynnydd posibl yn y cyfraddau llog a dwy gyfarwyddeb newydd gan yr Undeb Ewropeaidd yn dod yn ddeddfwriaeth Brydeinig yn 2015, sef y *Bank Recovery and Resolution Directive* a'r *Deposit Guarantee Schemes Directive*; bydd y newidiadau hyn yn golygu bod y baich o achub banciau'r UE sy'n methu yn cael ei osod yn anghymesur ar fuddsoddwyr awdurdodau lleol sydd heb gael eu diogelu, ni fydd y Llywodraeth yn rhoi arian i'w hachub, ac ni fydd buddsoddiadau'r awdurdodau lleol yn cael eu diogelu ac mae posibilrwydd na fydd yr holl brifswm a fuddsoddwyd yn cael ei ddychwelyd os yw'r banc yn methu. Mae hyn yn gadael awdurdodau cyhoeddus a sefydliadau ariannol (gan gynnwys cronfeydd pensiwn) fel yr unig uwch gredydwyr sy'n debygol o gael colledion mewn banc sy'n methu ar ôl Gorffennaf 2015.

4.3 Roedd yr Aelodau wedi cael gwybod eisoes am Repos (*Reverse Repurchase Agreements*) a roeddent wedi cytuno na fyddai'r ATA yn defnyddio Repos hyd oni fyddai CBS Conwy CBC wedi'u defnyddio; esboniodd Ms Forrest fod Conwy yn dal heb fod mewn sefyllfa i ddefnyddio Repos a byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio sy'n dilyn y defnydd o Repos yn CBS Conwy.

4.4 Atgoffwyd yr Aelodau fod y strategaethau yn yr adroddiad wedi cael eu paratoi gan ddefnyddio canllawiau gan ymgynghorwyr rheoli'r Trysorlys sef Arlingclose, a chadarnhawyd mai cost y contract hwn yw swm ar y cyd o £15,000 y flwyddyn i CBS Conwy a'r ATA.

4.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob un o'r pedair elfen yn yr adroddiad a'r argymhellion sydd ynddynt, ac argymell y rhain i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

**(i)** **rhestr o ddangosyddion ariannol fel sy'n ofynnol gan God Ariannol CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol;**

**(ii)** **Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, sy'n amlinellu'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca byrdymor a hirdymor ar gyfer 2016/17 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys, yn amodol ar gael rhagor o wybodaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ynglŷn â Repos;**

**(iii)** **y strategaeth i'w dilyn wrth fuddsoddi arian yr Awdurdod Tân ac Achub;**

**(iv)** **y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw.**

5 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2016-2020

5.1 Cyflwynodd Keith Williams o Archwilio Mewnol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, y strategaeth archwilio mewnol ar gyfer yr Awdurdod yn 2016-20. Nodwyd y bydd adroddiad blynyddol am waith a gwblhawyd yn 2015/16 yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Mehefin, ynghyd â chynllun gwaith o'r archwiliadau i'w cynnal yn 2016/17.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi a derbyn y strategaeth archwilio mewnol fel y'i cyflwynwyd.**

6 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL

6.1 Cafodd y llythyr archwilio mewnol ei gyflwyno i'r aelodau. Cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau, a bod gan yr Awdurdod drefniadau priodol yn eu lle i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth iddo ddefnyddio adnoddau.

6.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r llythyr archwilio blynyddol.**

7 RHAGLEN WAITH YN Y DYFODOL

7.1 Esboniodd y DBST y bydd yr Awdurdod yn gorfod gwneud penderfyniadau difrifol dros y blynyddoedd i ddod oherwydd y cyfyngiadau ar gyllidebau. Mae Gweithgor y Cynllun Gwella yn cynnwys aelodau'r Panel Gweithredol, a gan fod y cyfarfodydd yn rhai preifat mae'r aelodau'n cael ystyried gwahanol syniadau i fynd â'r Gwasanaeth yn ei flaen. Caiff gwybodaeth o gyfarfodydd y gweithgor ei chrynhoi a'i darparu i'r Pwyllgor Archwilio fel y bo'r Aelodau'n cael gwybod am y datblygiadau cyn i'r adroddiad am yr amcanion gwella drafft gael ei gyflwyno i'r ATA.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**